**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/3171/20

Mike Hedges AS
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Mike.Hedges@senedd.wales

28 Medi 2020

Annwyl Mike

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol (Memorandwm rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth**

Diolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig am graffu ar y diwygiadau a wnaed i'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn y Bil Amaethyddiaeth yn ystod y camau diwygio trwy Dŷ'r Arglwyddi. Addewais y byddwn yn ysgrifennu at Bwyllgorau ac Aelodau'r Senedd pe bai rhagor o ddiwygiadau'n cael eu gwneud sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd arnynt cyn eu trafod yn y cyfarfod llawn.

Ar ôl ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin, cwblhaodd y Bil Amaethyddiaeth ei Gam Adrodd yn Nhŷ'r Arglwydd ar 22 Medi. Rydym yn rhagweld y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol erbyn diwedd mis Hydref.

Gallaf hysbysu'r Pwyllgor fod y llywodraeth wedi gwneud tri diwygiad arall i'r Bil. O dan Reol Sefydlog 29.1(i) a 29.2(iii), mae gofyn i Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ger bron y Senedd, fel arfer ddim hwyrach na 2 wythnos ar ôl cyflwyno'r diwygiadau hynny neu gael cytundeb iddynt, ond gan fod proses y Bil yn tynnu i'w therfyn ac nad oes digon o amser felly i'r Senedd graffu arnynt, rwy'n ysgrifennu i ddisgrifio'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud. Fe welwch y manylion llawn ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol rhif 4 Diwygiad i Atodlen 5 (a darpariaeth berthynol) o ran cyfeiriadau at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar ôl gwneud y diwygiad i baragraff 5, gwelodd Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru broblem bosibl arall â'r ddarpariaeth, gan fod dehongliadau gwahanol yn bosibl o Erthygl 138 o'r Cytundeb Ymadael a'i goblygiadau i ddeddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â datblygu gwledig, a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn fwy cyffredinol.

Mae diwygiadau wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r RhDG, Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd a Gwenyna sy'n cadarnhau y daw deddfwriaeth benodol yn gyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwrnod cwblhau'r IP gan sicrhau bod modd gweithredu'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Atodlen 5;

Mae pŵer cymorth ariannol cul wedi'i gynnwys sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru dalu'r bobl hynny sydd â chytundebau'n parhau o dan y cynllun RhDG bresennol ar ôl gwario cyllid yr UE. Bwriad y pŵer hwn yw caniatáu i Weinidogion Cymru barhau i ysgwyddo'u rhwymedigaethau contractyddol os na ellir cytuno ar Fesurau Technegol â'r UE yn unol ag Erthygl 138(5) o'r Cytundeb Ymadael er mwyn dod â'r rhaglen i ben. Mae ei gwmpas yn gyfyng a gellir ei ddefnyddio ond i roi cymorth ariannol i'r rheini sydd â chytundebau/contractau sydd heb ddod i ben;

Mae pŵer gwneud rheoliad wedi'i gynnwys i ddiwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â Gwenyna. Mae hyn yn sicrhau bod modd diwygio fframwaith gwenyna'r UE yn y dyfodol er mwyn rhoi cynllun newydd ar waith. Caiff diwygiad technegol ei gyflwyno yn y Trydydd Darlleniad ar 1 Hydref i gadarnhau fod y pŵer gwneud rheoliad yn cael ei wneud o dan y weithdrefn negyddol;

Y rhain nawr yw Cymalau 17 (rhaglenni'r UE sy'n parhau: pŵer i ddarparu cymorth ariannol), Cymal 18 (deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir), Cymal 55 (dehongli), Cymal 59 (darpariaeth ariannol), Cymal 60 (cwmpas) ac Atodlen 5 – paragraff 4.

Diogelu'r Cyflenwad Bwyd

Mae Cymal 19 (Dyletswydd i adrodd i Senedd y DU ar ddiogelu cyflenwadau bwyd y DU) yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i adrodd i Senedd y DU ar ddata sy'n ymwneud â diogelu cyflenwadau bwyd y DU. Yn ystod y cyfnod craffu, mynegodd y Pwyllgor ei bryderon ynghylch pa mor aml y bydd angen adroddiad. Derbyniais y gallai fod angen adroddiadau yn amlach o gofio mor gyflym y mae pethau'n datblygu yn y maes hwn. Bu'r cymal hwn yn destun llawer o drafod yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud diwygiad er mwyn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd yn lle bob pum mlynedd, gyda gofyn i osod yr adroddiad cyntaf o dan gymal 19 ar neu cyn y "diwrnod perthnasol' a ddiffinnir yn y Bil.

Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol neu drosiannol

Mae Cymal 50 yn darparu pŵer trwy reoliadau i wneud darpariaeth ategol, cysylltiedig neu ganlyniadol mewn cysylltiad ag unrhyw rai o ddarpariaethau'r Bil (gan gynnwys pwerau i newid deddfwriaeth sylfaenol, deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir neu is-ddeddfwriaeth) (cymal 50(1) a (2)).

Roedd Cymal 50 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati) yn darparu pŵer cyffredinol ac eang trwy reoliadau i wneud darpariaeth ategol, cysylltiedig neu ganlyniadol mewn cysylltiad ag unrhyw rai o ddarpariaethau'r Bil (gan gynnwys pwerau i newid deddfwriaeth sylfaenol, deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir neu is-ddeddfwriaeth

Diwygir y cymal i greu dwy ddarpariaeth newydd.  Mae'r naill (Cymal 57) yn ymdrin â darpariaeth ategol, cysylltiedig neu ganlyniadol (ac yn cynnwys yr hyn oedd yng nghymal 50(1) i (4), fel y'u diwygiwyd yng ngham adrodd Tŷ'r Arglwyddi) ac mae'r llall (Cymal 58) yn ymdrin â darpariaeth drosiannol ac ati (ac yn cynnwys yr hyn oedd yng nghymal 50(5) a (6), fel y'u diwygiwyd yng ngham Adrodd Tŷ'r Arglwyddi).

Yn fras, gofynnodd swyddogion am y diwygiadau hyn, i'w gwneud yn y cam Adrodd, fel bod Gweinidogion Cymru ac nid yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael arfer y pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol o dan yr hyn oedd yng nghymal 50(1) a 50(5) mewn cysylltiad â rhai darpariaethau ychwanegol, fel y gofynnwyd amdanynt (yn ogystal â'r darpariaethau yr ymdriniwyd â nhw eisoes).

Ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol neu drosiannol y gallai Gweinidogion Cymru ei gwneud mewn cysylltiad â'r darpariaethau hynny. Ceir un eithriad i hyn.  Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol mewn cysylltiad ag adrannau 36 a 37 (cynnyrch organig) os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ymgynghori yn gyntaf â Gweinidogion Cymru.  Mae hyn yn golygu bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru bwerau cydredol i wneud darpariaeth ganlyniadol, i'r graddau eu bod yn berthnasol i Gymru, mewn cysylltiad ag adrannau 36 a 37.  Bydd esboniad manwl o'r diwygiadau hyn yn dilyn maes o law.

Diwygiadau Amllywodraethol a wnaed yng Ngham Adrodd Tŷ'r Arglwyddi

Rwyf wedi nodi rhagor o ddiwygiadau isod at sylw'r Pwyllgor. Rydym wrthi'n eu dadansoddi. Rwy'n argymell eich bod yn rhoi'ch cydsyniad oherwydd os bydd y diwygiadau newydd hyn yn aros yn y Bil ac os byddant yn effeithio ar fy argymhelliad o blaid cydsyniad, byddaf yn cyflwyno dadl arall.

Cafodd y diwygiadau anllywodraethol hyn eu cynnwys yn y Bil yn ystod Cam Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac yn cynnwys y canlynol:

- Cymal 20 – Y Strategaeth Fwyd Genedlaethol;
- Cymal 38 – Defnyddio plaladdwyr: cyfyngu ar eu defnydd i ddiogelu iechyd pobl;
- Cymal 47 – Y gofyniad i fewnforion amaethyddol a bwyd fodloni safonau domestig;
- Cymal 48 – Cyfraniad amaethyddiaeth a defnydd tir cysylltiedig at dargedau newid hinsawdd;
- Cymal 49 – Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth.

Hoffwn ddatgan eto bwysigrwydd y Bil hwn fel cyfrwng i sicrhau sefydlogrwydd a dilyniant i amaethyddiaeth Cymru wrth inni barhau i fraenaru'r tir ar gyfer ein Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ein hunain, i'w gyflwyno yn nhymor nesa'r Senedd fel yr esboniais yn fy natganiad llafar ar 8 Gorffennaf.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs